Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Trosglwyddo addysg gynradd i uwchradd yn ystod pandemig Covid-19: astudiaeth ansoddol o brofiadau disgyblion cyfrwng Cymraeg a'u rhieni di-Gymraeg

Siân Lloyd Williams, Enlli Môn Thomas, Rhodri Aled Evans, Lowri Jones, Delyth Jones, Rhian Tomos, Natalie Joseph-Williams, Abubakar Sha'aban, Adrian Edwards

## Cefndir

**Effaith pandemig COVID-19:** Fe wnaeth y cyfnod clo a chau ysgolion darfu ar addysgu yn 2020 a 2021.

**Effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg:** Roedd disgyblion o deuluoedd di-Gymraeg mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn wynebu heriau penodol.

## Nod

**Nod:** I ddeall profiadau parau o blentyn (disgybl) a rhiant mewn teuluoedd di-Gymraeg lle mae eu plentyn/plant yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cyd-destun:** Mae'r astudiaeth yn archwilio profiadau trosglwyddo rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn ystod y pandemig.

## Methodoleg

**Amserlen yr astudiaeth**: Casglwyd a dadansoddwyd y data rhwng Ionawr a Mehefin, 2023.

**Dyluniad**: Astudiaeth ansoddol; strategaethau samplu pwrpasol; cyfweliadau led-strwythuredig.


**Cyfranogwyr**: Disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'u rhieni di-Gymraeg.

**Ffocws y cyfweliadau**: Profiadau o ddysgu yn y cartref, trosglwyddo o addysg gynradd i'r uwchradd, dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfyngiadau clo, profiad rhieni wrth gefnogi eu plant yn ystod y pandemig, a dyheadau i'r dyfodol..

## Canfyddiadau Allweddol

**Ymgysylltu â'r Gymraeg** | Yn ystod y cyfnod clo, cafodd disgyblion a rhieni llai o gyfleoedd i ymgysylltu a defnyddio'r Gymraeg.

**Gwerth asesu sgiliau iaith** | Wrth gamau cynnydd arwyddocaol er mwyn adnabod anghenion cymorth ar gyfer yr ysgol uwchradd.




**Gwerth cryfhau cysylltiadau** | Rhwng lleoliadau cynradd ac uwchradd er mwyn cefnogi cynnydd.

**Sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol** | Annog cyfathrebu effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol drwy ddefnydd o apiau cyfathrebol fel 'see-saw', 'school gateway' ac ati.

**Cynyddu cyfathrebu dwyieithog** | Darparu rhestr o derminoleg allweddol a fyddai'n cynorthwyo rhieni i gael mynediad at adborth a'i ddeall.

**Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg** | Creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn a thu hwnt i'r ysgol.

## Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

**Cefnogi polisi:**
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cefnogi sgiliau Cymraeg rhieni

**Cefnogi Awdurdodau Addysg Leol ac ysgolion:**
- Symleiddio'r broses drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd
- Mabwysiadu dulliau tebyg i ddarparu adborth a strategaethau ar gyfer cefnogi sgiliau Cymraeg ar draws clystyrau ysgol
- Cefnogi trawsieithu

**Cefnogi ysgolion i gynorthwyo rhieni**
- Sicrhau ymwybyddiaeth o natur ieithyddol y cartref
- Penodi aelod allweddol o staff fel pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch y Gymraeg
- Sicrhau cyfathrebu dwyieithog effeithiol

**Gellir cyrchu'r adroddiad llawn a gynhyrchwyd yn rhan o'r prosiect drwy ddilyn y ddolen ganlynol neu drwy sganio'r côd QR**
https://doi.org/10.35542/osf.io/4m3k6